# Gwybodaeth Gyffredinol

a

# Chanllawiau

i

## FYFYRWYR AR GYRSIAU GRADD UWCH

**Medi 2023**

Mae’r ddogfen hon i’w chael ar-lein yn:
**https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/forms-handbooks/**

**Noder:**
Roedd y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Fodd bynnag, caiff y gweithdrefnau a’r rheoliadau eu diweddaru o bryd i’w gilydd. Os oes gennych unrhyw amheuon, cysylltwch ag Ysgol y Graddedigion.

## Cynnwys


1. Rhagarweiniad ........ 5
2. Y Gofrestrfa Academaidd ........ 5
3. Ysgol y Graddedigion ........ 6
4. Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd ........ 7
5. Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi ........ 9
6. Sgiliau Astudio ........ 10
7. Eich cefnogi chi ........ 11
8. Myfyrwyr Rhyngwladol ........ 13
9. Gwasanaethau Gwybodaeth ........ 14
10. Llyfrgell Genedlaethol Cymru ........ 16
11. Gwasanaeth Gyrfaoedd ........ 16
12. Y Ganolfan Gerdd ........ 17
13. Chwaraeon Aber ........ 17
14. Undeb y Myfyrwyr ........ 18

1. Rhagarweiniad ........ 23
2. Derbyn Myfyrwyr ........ 23
3. Myfyrwyr Anabl a Myfyrwyr â Gwahaniaethau Dysgu Penodol ........ 25
4. Cofrestru ac Ymgynefino ........ 25
5. Yr Amgylchfyd Uwchraddedig a'i Adnoddau ........ 26
6. Trefniadau Arolygu ........ 26
7. Cynrychiolaeth ........ 27
8. Newid rhwng amser llawn a rhan-amser ........ 28
9. Tynnu'n ôl o'r Brifysgol ........ 28
10. Asesu ........ 28
11. Apelio ........ 29
12. Eiddo Deallusol, Cyhoeddi, Ymddygiad Academaidd Annerbyniol a Llên-ladrad ........ 29
13. Uniondeb a Moeseg Ymchwil ........ 30
14. Cydbwysedd rhwng Gwaith ac Astudio ........ 31
15. Myfyrwyr Rhan-amser ........ 32

# Rhan Un

# GWYBODAETH GYFFREDINOL I FYFYRWYR AR GYRSIAU GRADD UWCH

# 1. Rhagarweiniad

Lluniwyd rhan gyntaf y llyfryn i gyflwyno'r dewis eang o wasanaethau sydd ar gael i'ch cynorthwyo yn ystod eich cyfnod o astudio ac i wella eich profiad fel myfyriwr. Eich tiwtor personol neu gydlynydd eich gradd fydd y rhai cyntaf i droi atynt i gael cyngor ar faterion academaidd, ond mae Aberystwyth yn enwog am fod yn gyfeillgar, ac mae staff arbenigol wrth law i roi cyngor arbenigol neu i'ch cyfeirio ymlaen i'r adrannau yn y Brifysgol lle mae cymorth perthnasol i'w gael, beth bynnag yw eich anghenion.

# 2. Y Gofrestrfa Academaidd

https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/

2.1 Y Gofrestrfa Academaidd sy'n gyfrifol am:

- Cofrestru Myfyrwyr
- Cynnal a chadw Cofnodion Myfyrwyr
- Trawsgrifiadau myfyrwyr y modiwlau a addysgir
- Cynhyrchu Tystysgrifau'r Radd Derfynol
- Ardystio statws myfyrwyr
- Gweinyddu'r drefn apeliadau

2.2 Cysylltwch â'r Gofrestrfa Academaidd os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r:

- Cofrestru
- Dyddiadau cau cyflwyno Traethodau Estynedig
- Prosesu canlyniadau asesiadau
- Rheolau a rheoliadau
- Tynnu'n ôl o'r Brifysgol

trwy e-bostio pgsstaff@aber.ac.uk

Neu os ydych chi angen un o'r canlynol:

- Tystysgrifau cofrestru
- Llythyr cyflwyno i adnoddau bancio yn y Deyrnas Gyfunol trwy e-bostio aocstaff@aber.ac.uk neu gallwch wneud cais yn uniongyrchol o'r wefan yn: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/certification/

2.3 Rhaid i'r holl uwchraddedigion gofrestru ar ddechrau eu rhaglen astudio ac ym mis Medi ar ddechrau'r sesiwn academaidd tan y dyddiad y daw eu cofrestriad i ben.

Bydd manylion yn dweud sut a phryd i gofrestru yn y wybodaeth 'Groeso' a roddir i fyfyrwyr newydd cyn iddynt ddechrau ar eu rhaglen. Mae mwy o wybodaeth a chyngor ar gofrestru a materion eraill i'w cael o'r Swyddfa Gweinyddu Myfyrwyr, gweler https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/pg-issues/

Rhaid gwneud yn sicr bod yr wybodaeth ar eich cofnod myfyriwr yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen. I weld eich cofnod myfyriwr ewch i: https://studentrecord.aber.ac.uk/cy/

## 3. Ysgol y Graddedigion

https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/

3.1 Ysgol y Graddedigion sy’n gyfrifol am Ddatblygiad Ymchwilwyr uwchraddedig yn y Brifysgol yn gyffredinol. Mae ganddi hefyd swyddogaeth gydlynu yng nghyswllt y canlynol: datblygu polisi ar faterion uwchraddedig; darparu adnoddau i uwchraddedigion; darparu hyfforddiant ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg; dyfarnu Ysgoloriaethau AberDoc y Brifysgol; goruchwylio partneriaeth y Brifysgol yng Nghanolfannau Hyfforddiant Doethurol UKRI, a monitro cynnydd academaidd uwchraddedigion. Mae Aberystwyth wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant ardderchog i uwchraddedigion ac mae wedi sefydlu Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr sy’n agored i bob myfyriwr yn unol â gofynion hyfforddiant penodol.

3.2 Mae Pennaeth a Dirprwy Benaethiaid Ysgol y Graddedigion yn gweithio ar y cyd â staff academaidd a gweinyddol ledled y Brifysgol, gyda chefnogaeth tîm sy'n ymdrin â phob agwedd ar astudio uwchraddedig yn Aberystwyth.

3.3 Mae'r Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr yn cynnwys nifer o fodiwlau hyfforddiant ymchwil ynghyd â gweithdai Hyfforddiant Sgiliau Proffesiynol a Throsglwyddadwy dewisol.

- Research Skills and Personal Development
- Sgiliau Ymchwil a Datblygiad Personol
- Principles of Research Design
- Ways of Reading
- Dulliau Darllen
- Statistics in Context: Collecting, Handling and Presenting Data
- Quantitative Data Collection and Analysis
- Qualitative Data Collection and Analysis
- Manuscript Skills: Post Medieval Palaeography and Diplomatic
- Using Manuscript Sources for Medieval Studies: Palaeography, Diplomatic and Context
- Research Skills and Personal Development for Scientists
- Public Engagement and Impact
- Ways of Working
- Leadership for Researchers
- Research Seminar Skills in the Life Sciences
- Grants Development Workshops
- The Research Writing Programme
- Entrepreneurship
- Reading and Writing Development Group

- Skills in Bioinformatics for Biologists
- Theoretical Foundations of Research in Law and Criminology
- Philosophy and Contemporary Culture
- Writing your first Journal Article
- How to Organise a Conference
- Subject Specific Research Skills
- Critical Commentary in Practice-based Research

Mae’n cynnwys cyfres o fodiwlau, ac mae rhai ohonynt wedi’u cynnwys yn y rhaglenni uwchraddedig trwy gwrs.

Mae rhagor o fanylion i’w cael ar wefan Ysgol y Graddedigion yn https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/researcher/

## 4. Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd

https://www.aber.ac.uk/cy/hse/

4.1 Mae Prifysgol Aberystwyth yn cydnabod bod gofalu am iechyd a diogelwch ein gweithwyr, ein myfyrwyr ac eraill y mae ein gweithgareddau, ac ansawdd yr amgylchedd, yn effeithio arnynt, yn rhan annatod o weithrediad y brifysgol ac yn gyfrifoldeb pwysig wrth reoli ar bob lefel.

4.2 Dirprwy Is-Gangellorion y Cyfadrannau a Phenaethiaid Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol sy'n gyfrifol am reoli iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd yn eu Cyfadrannau neu Adrannau. Yn benodol, maent yn gyfrifol am gynllunio, gweithredu, monitro ac adolygu mesurau i reoli risg sy'n deillio o weithgareddau eu Cyfadran neu eu Hadran a sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu dyrannu ar gyfer hyn. Er mwyn eu cynorthwyo yn hyn o beth, gallant benodi Cydlynydd(wyr) Iechyd a Diogelwch a gallant drefnu i ddyletswyddau gael eu dirprwyo ymhellach, fel y bo'n briodol, o fewn i’w Cyfadran neu Adran.

4.3 Mae gan eich arolygydd a chydlynwyr y cynlluniau gradd ran allweddol i'w chwarae i sicrhau bod y gweithgareddau sy’n gysylltiedig â’ch gwaith yn ddiogel, yn enwedig pan fyddwch yn gweithio mewn amgylcheddau lle mae’r risg yn uwch, er enghraifft mewn labordai neu yn y maes. Rhaid i'ch arolygydd sicrhau bod yr holl asesiadau risg priodol wedi’u gwneud, bod trefniadau gwaith diogel ar waith, eu bod yn cael eu hesbonio i chi a'ch bod yn deall yn llwyr; hefyd eich bod yn cael yr holl hyfforddiant angenrheidiol cyn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd peryglus. Os ydych chi'n teimlo bod angen mwy o gefnogaeth a hyfforddiant arnoch, cofiwch ofyn amdano!

4.4 Cewch wybod am weithdrefnau lleol mewn argyfwng a threfniadau cymorth cyntaf gan eich arolygydd neu'ch Cydlynydd Iechyd a Diogelwch. Os ydych yn ansicr o unrhyw agwedd yna, unwaith eto, cofiwch eich bod yn holi!

4.5 Os cewch ddamwain neu anffawd, neu os bydd damwain bron â digwydd ichi, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch arolygydd, cydlynydd eich cynllun gradd neu'ch Cydlynydd Iechyd a Diogelwch (bydd y manylion cyswllt ar eu cyfer gan eich Cyfadran neu'ch Adran), a llenwi'r ffurflen cofnodi digwyddiad. Os byddwch yn torri darn o gyfarpar yn ddamweiniol neu'n gweld nam, rhowch wybod am hyn hefyd – peidiwch â'i adael i rywun arall ddod o hyd iddo neu geisio’i drwsio eich hun.

4.6 Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth:

4.6.1 Bydd myfyrwyr ar bob adeg, tra byddant ar safle'r Brifysgol neu'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Brifysgol, yn cadw at y Polisi Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, yn benodol felly Adran 2.10, ac yn cydymffurfio ag unrhyw reolau a chyfarwyddiadau iechyd a diogelwch a roddir iddynt gan y Brifysgol, eu hadrannau neu Undeb y Myfyrwyr;

4.6.2 Ni fyddant, heb gydsyniad yr aelod o staff sy'n gyfrifol am y maes neu'r gweithgaredd, yn dod ag unrhyw offer i'w ddefnyddio ar safle'r Brifysgol, yn newid unrhyw osodiadau sefydlog neu offer cludadwy, nac ychwaith yn cymryd unrhyw gamau a allai greu peryglon i aelodau'r Brifysgol neu unigolion eraill sy'n defnyddio'r adeilad;

4.6.3 Ni fyddant, yn fwriadol nac yn ddi-hid, yn newid nac yn symud hysbysiadau ID&A, yn ymyrryd ag offer na chamddefnyddio offer neu gyfleusterau a ddarperir gan y Brifysgol er budd iechyd, diogelwch neu i ddiogelu'r amgylchedd;

4.6.4 Ni fyddant yn gweithio yn yr adeiladau academaidd ar ôl oriau oni bai bod angen penodol i weithio ar yr adegau hynny, bod y gweithgaredd wedi'i gymeradwyo gan eich arolygwr a'r asesiadau risg priodol wedi'u rhoi ar waith ar gyfer y gwaith.

4.6.5 Oni bai iddynt gael awdurdod a bod yr holl hyfforddiant a'r gwaith papur angenrheidiol wedi'u cwblhau'n briodol a digonol, ni fyddant yn mynd i mewn i ardaloedd sy'n gwahardd mynediad heb awdurdod nac yn defnyddio offer a allai eu peryglu eu hunain, eraill neu'r amgylchedd.

4.7 Os oes gennych ymholiadau na ellir eu trin yn lleol, cysylltwch â Thîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, e-bost: hasstaff@aber.ac.uk, ffôn: 01970 622073.

4.8 Diogelwch

Caiff ystâd y Brifysgol ei batrolio gan Weithredwyr Diogelwch mewn lifrai. Maent yn gweithredu o Dderbynfa'r Campws ger y fynedfa i Gampws Penglais. Gallant roi gwybodaeth a chyngor ac ymateb i geisiadau am gymorth gan staff, myfyrwyr ac ymwelwyr.
Dylid rhoi gwybod i'r Swyddogion Diogelwch am bob digwyddiad sy'n gysylltiedig â diogelwch naill ai'n bersonol neu trwy ffonio'r rhifau canlynol: estyniad 2649 / ffôn symudol 07889 596220.

## 5. Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi

https://www.aber.ac.uk/rbi

5.1 Lleolir yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi yn y Parc Gwyddoniaeth. Mae’r adran yn hyrwyddo ymchwil ac yn atgyfnerthu’r diwylliant o arloesi a chyfnewid gwybodaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Y mae’n cynnig nifer o wasanaethau i gynorthwyo ac arolygu gweithgareddau ymchwil ac arloesi ledled y Brifysgol, gyda’r nod o gynyddu gweithgareddau ymchwil a chyfnewid gwybodaeth a lleihau'r baich gweinyddol cysylltiedig i gydweithwyr academaidd ac ymchwil. Mae'r adran yn rhoi cymorth ar draws pum maes allweddol:

- **Datblygu Ymchwil (gan gynnwys moeseg ac uniondeb ymchwil**)
  - Rhoi cymorth uniongyrchol i academyddion ac ymchwilwyr wrth baratoi a chyflwyno ceisiadau grant ymhob disgyblaeth ac i unrhyw gyllidwyr.
  - Cynnal moeseg ac uniondeb ymchwil gan gynnwys prosesau adolygu moesegol.

- **Datblygu Rhyngwladol a Busnes**
  - Dod ag academyddion, ymchwilwyr a busnesau ynghyd er mwyn cyfnewid gwybodaeth, arloesi ac ymchwil. Meithrin cyswllt â sefydliadau allanol, canfod a chefnogi cyfleoedd am gyllid trosiannol, a hwyluso masnacheiddio dyfeisiadau o Brifysgol Aberystwyth. Hyrwyddo a chefnogi ceisiadau am grantiau o Raglen Horizon Ewrop a’r Gronfa Ffyniant Gyffredin Ranbarthol/DG.

- **Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil a Monitro Ymchwil**
  - Rheoli gwybodaeth ymchwil ac adrodd ar yr wybodaeth er mwyn hybu datblygiad ymchwil ragorol sy'n cael effaith.
  - Gweithio gyda gwasanaethau gwybodaeth i reoli agenda cyhoeddi a rheoli data ymchwil Mynediad Agored.

  - Mae staff y FfRhY a staff monitro ymchwil hefyd yn cyfrannu at y modiwlau Hyfforddi Uwchraddedigion: Public Engagement and Impact (PGM1610) ac Ethics, Plagiarism and Academic Practice for Research Students (PGM9005).

- **Rheoli Prosiectau a Sicrhau Ansawdd**
  - Monitro perfformiad prosiectau mawr ymchwil a menter, a rhannu arferion da yng nghyswllt rheoli prosiect a gwaith cyfrifo ar ôl ennill dyfarniad.

- **Contractau a Pholisïau**
  - Adolygu, trafod a phrosesu contractau sy'n gysylltiedig ag ymchwil a gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth ledled y Brifysgol a thrafod â phartneriaid.

- **Cyllid Ymchwil yn yr Adran Gyllid**:
  - Cynorthwyo’r adran wrth gyfrifo costau cynigion ymchwil, arloesi a chyfnewid gwybodaeth. Cadw rheolaeth ariannol ar y grantiau trwy baratoi datganiadau gwariant ac adroddiadau rheolaidd i’r Prif Ymchwilwyr, y Cyfadrannau a rheolwyr y Brifysgol.

5.2 Mae YB&A wedi datblygu Pecyn Cymorth Ceisiadau am Grantiau Ymchwil, i dywys ymchwilwyr trwy drefn Prifysgol Aberystwyth wrth ymgeisio am grant ymchwil. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys gwybodaeth a dolenni defnyddiol ar gyfer e.e. canfod cyllid, datblygu cynnig

ymchwil, ystyried moeseg ymchwil, costio prosiectau, rheoli prosiectau, lledaenu canlyniadau/effaith, ac adrodd ar ôl dyfarniad https://www.aber.ac.uk/cy/rbi/staff-students/toolkit/.

Mae YB&A yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau, gan gynnwys sesiynau briffio byr i roi gwybodaeth ynglŷn â chyfleoedd a chynlluniau ariannu, yn ogystal â sesiynau hyfforddi 'Arfer Da mewn Ymchwil', sy'n agored i'r holl staff academaidd. Caiff manylion am y rhain eu dosbarthu'n rheolaidd i'r holl staff academaidd ac uwchraddedigion a'u rhoi ar we-ddalen digwyddiadau YB&A https://www.aber.ac.uk/cy/rbi/staff-students/staff/#upcoming-events

5.3 Os byddwch ar unrhyw adeg yn ystod eich ymchwil angen cyngor ar faterion yn ymwneud â Hawliau Eiddo Deallusol (gan gynnwys patentau, hawlfraint, dylunio, nodau masnach a gwybodaeth gyfrinachol), gall YB&A eich cynorthwyo. Mae Canllaw Prifysgol Aberystwyth ynglŷn ag Eiddo Deallusol i'w gael ar-lein yn: https://www.aber.ac.uk/cy/rbi/staff-students/busdev-techtrans/intellectual-property/, yn ogystal â manylion cyswllt staff YB&A a all eich cynorthwyo a'ch cynghori.

5.4 I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau a gynigir gan YB&A, ewch i https://www.aber.ac.uk/cy/rbi/. Neu, fel arall, i drefnu i siarad ag aelod o'r tîm, cysylltwch â drbi@aber.ac.uk / 01970 622385 (gweler y cyfeiriadau).

## 6. Sgiliau Astudio

Cymorth Iaith ac Astudio i Fyfyrwyr

6.1 Rydym yn cynnig cymorth iaith a chymorth astudio i fyfyrwyr gwledydd Prydain a myfyrwyr rhyngwladol ar draws y Brifysgol. Mae gan y staff gryn brofiad o weithio gyda myfyrwyr mewn amryw bynciau.

6.2 Gall myfyrwyr uwchraddedig sydd eisiau gwella ansawdd eu hysgrifennu academaidd drefnu ymgynghoriadau ysgrifennu i gael cyngor unigol gan ein Cymrawd Ysgrifennu o'r Gronfa Lenyddol Frenhinol. Cysylltwch trwy'r cyfeiriad e-bost a welir ar y we-ddalen ganlynol er mwyn trefnu apwyntiad: https://www.aber.ac.uk/cy/student-learning-support/rlf/

6.3 Cynhelir gweithdai ysgrifennu yn rheolaidd ar ffurf sesiynau o fewn dosbarthiadau. Bydd y sesiynau hyn yn trafod materion megis:

- Rhoi strwythur a threfn i wybodaeth ysgrifenedig;
- Meithrin dull rhugl o ysgrifennu, sy'n ramadegol gywir ac yn addas o ran arddull;
- Adnabod y gynulleidfa ac ysgrifennu ar eu cyfer;
- Cyfeirnodi a chydnabod ffynonellau;
- https://www.aber.ac.uk/cy/student-learning-support/postgrad/

6.4 Gall myfyrwyr sydd eisiau cymorth gyda datblygiad iaith Saesneg drefnu sesiynau tiwtorial un-i-un trwy'r Ganolfan Saesneg Ryngwladol. I drefnu apwyntiad, cysylltwch â'r Ganolfan trwy e-bostio (tesol@aber.ac.uk) neu trwy'r wefan: https://www.aber.ac.uk/en/international-english/one-to-onelanguageconsultationsforinternationalstudents/

6.5 Mae manylion sut i fanteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael i'w gweld ar y we:

https://www.aber.ac.uk/cy/student-learning-support/

Mae cymorth a chyngor i'w cael hefyd i fyfyrwyr rhyngwladol sydd eisiau cymorth gyda phroblemau'n ymwneud ag iaith, diwylliant neu astudio. Galwch heibio, ffoniwch neu e-bostiwch i drefnu apwyntiad.

# 7. Eich cefnogi chi

Mae staff a thimau Gwasanaethau'r Myfyrwyr yn gyfeillgar ac yn hawdd troi atynt, ac maent yn cynnig pob math o gymorth arbenigol a phroffesiynol. Trwy weithio gyda chi, gallant ganfod ateb i'r rhan fwyaf o heriau bywyd myfyriwr. Mae'r gwasanaethau'n anfeirniadol ac yn parchu cyfrinachedd.

## 7.1 Canolfan Gwasanaethau'r Myfyrwyr

Canolfan Gwasanaethau'r Myfyrwyr yw'r lle i fynd i gael cymorth a gwybodaeth am yr holl wasanaethau a gynigiwn, sy'n cynnwys Lles, Hygyrchedd a Chynhwysiant, Cyngor ac Arian, Cyngor Fisa, ac atal aflonyddu a thrais.

Gallwch ffonio'r tîm ar 01970 621761 neu 01970 622087
Gallwch e-bostio'r tîm trwy cymorth-myfyrwyr@aber.ac.uk
neu ewch i'n gweddalennau:
https://www.aber.ac.uk/cy/studentservices/careers/

Rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau:

Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

Cyngor ac Arian

Mae'r tîm Cyngor ac Arian yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn ogystal ag atgyfeirio myfyrwyr i'r man iawn i gael cymorth. Os nad ydych yn sicr i ble i droi er mwyn cael cyngor neu gymorth cofiwch gysylltu â ni. Does 'na ddim problem sy'n rhy fach nac yn rhy fawr. Mae ein gwasanaeth yn gyfrinachol, yn anfeirniadol ac yn rhad ac am ddim. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gweinyddu Cronfeydd Caledi y Brifysgol.

Cysylltwch â ni: 01970 621761/622087
adviceandmoney@aber.ac.uk

Hygyrchedd a Chynhwysiant

Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr anabl a myfyrwyr sydd â gwahaniaethau dysgu penodol. Cyn gwneud cais, rydym yn eich cynghori i ystyried gofynion eich dewis gwrs, i weld a oes unrhyw elfennau a allai efallai roi rhai trafferthion penodol ichi. Rydym yn argymell ichi ymweld â champws y Brifysgol a'r adran sydd gennych dan sylw er mwyn gweld pa gymorth sydd ar gael, cael golwg ar yr holl adnoddau, a thrafod anghenion penodol.

Mae ein Hymgynghorwyr Hygyrchedd Myfyrwyr yn barod i gynorthwyo cyn ichi wneud cais. Mae'n bwysig ichi gysylltu â'ch adran ac â'n Hymgynghorwyr Hygyrchedd cyn gynted â phosibl oherwydd gallai gymryd amser i drefnu'r addasiadau a'r cymorth angenrheidiol. Rydym hefyd yn argymell ichi gysylltu â'n Hymgynghorwyr Hygyrchedd i drafod asesiad o anghenion astudio ac i gael cyngor am grantiau, er enghraifft y Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA).

Gall ein cynghorwyr drefnu gweithiwr cymorth i fyfyrwyr anabl cymwys, er enghraifft cymorth

unigol â sgiliau astudio a mentoriaid. Gellid efallai wneud addasiadau rhesymol mewn arholiadau a threfnu asesiadau amgen i fyfyrwyr sydd ag amrywiol amhariadau, gan gynnwys gwahaniaethau dysgu penodol, er enghraifft dyslecsia a dyspracsia. Cysylltwch â ni:
01970 621761/622087: anabledd@aber.ac.uk

**Cynllun Mentora 'Ffordd Hyn'**
Mae cynllun 'Ffordd Hyn' yn cynnig cyngor cyfeillgar, cyfrinachol, un-i-un am bob agwedd ar fywyd prifysgol. Cynllun mentora gan gyd-fyfyrwyr yw 'Ffordd Hyn' ar gyfer yr holl israddedigion newydd. Y nod yw eich cynorthwyo i gyflawni eich potensial, i ymgartrefu, cynllunio am y dyfodol, a gwneud y mwyaf o'ch cyfnod yn y brifysgol.
Gall y Gwasanaeth roi cefnogaeth i uwchraddedigion hefyd os oes angen hynny.

Cysylltwch â ni: 01970 621761, fforddhyn@aber.ac.uk

7.2 Lles Myfyrwyr

Mae tîm Lles y Myfyrwyr yn rhoi cyngor ac arweiniad ar bob math o faterion seicolegol ac emosiynol. Mae'r tîm Lles yn ategu gwasanaethau statudol, ond nid yw'n eu disodli, ac mae'n gweithio gyda myfyrwyr i ganfod llwybrau addas o gefnogaeth a allai olygu cyfeirio myfyrwyr ymlaen at asiantaethau allanol.

Cysylltwch â ni: 01970 621761/622087
lles@aber.ac.uk

Cofrestru gyda Meddyg Teulu
Er ein bod yn cydweithio'n agos â meddygfeydd lleol a gwasanaethau'r ysbyty i sicrhau eich bod yn cael gofal a sylw da os oes angen, mae'n bwysig i chi gofrestru mewn meddygfa leol ar ôl i chi gyrraedd Aberystwyth. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau parhad gofal, yn enwedig os ydych yn cael unrhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn neu driniaeth arall. Dylai myfyrwyr o'r Deyrnas Gyfunol ddod â'u Cerdyn Meddygol Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) gyda nhw.
Mae gwybodaeth am gofrestru mewn meddygfa i'w chael gan y meddygfeydd unigol. Cliciwch ar y ddolen i weld manylion cyswllt y meddygfeydd lleol:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/862/directory/gps

Gwasanaethau Deintydd
Nid yw'r Brifysgol yn cynnig gwasanaeth deintyddol. Mae nifer o ddeintyddion i'w cael yn lleol.

Cyswllt mewn Argyfwng a Chyswllt Dibynadwy
Mae'n rhaid i bob myfyriwr roi manylion am unigolion y gellir cysylltu â hwy mewn argyfwng. Dim ond mewn argyfwng y defnyddir yr wybodaeth hon. Ar ôl i chi ddechrau eich cyfrif myfyriwr, ychwanegwch eich manylion cyswllt mewn argyfwng at eich cofnod myfyriwr. Gwnewch yn sicr bod y sawl sy'n cael ei enwi yn ymwybodol o hyn ac wedi cytuno i roi eu manylion i'r Brifysgol yn achos argyfwng. Gofynnir ichi hefyd roi manylion Cyswllt Dibynadwy. Mae'n bosibl iawn mai'r un person fydd hwn â'ch person cyswllt mewn argyfwng, ond gall fod yn berson arall. Bydd y person yma'n rhywun y byddech yn fodlon inni gysylltu â hwy, gyda'ch caniatâd neu, dan amgylchiadau eithriadol, heb eich caniatâd, pan fydd gennym bryderon am eich diogelwch ac/neu eich lles.

Nawdd Nos
Gwasanaeth gwybodaeth a gwrando annibynnol ac anfeirniadol yw hwn, sy'n cael ei drefnu gan fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr. Mae'r gwasanaeth cyfrinachol hwn ar gael o 10 y nos tan 2 y bore ar nos Fawrth, nos Fercher a nos Sadwrn yn ystod tymor yr israddedigion. Y rhif yw 01970 622166. Mae gwasanaethau negeseua gwib a gwrando trwy e-bost hefyd ar gael trwy wefan Nawdd Nos Aberystwyth http://www.nightline.aber.ac.uk/en/index.php

Cyngor a chynrychiolaeth
Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnal Canolfan Gynghori, sy'n rhoi cymorth a chynrychiolaeth annibynnol, ar faterion academaidd, lles neu ariannol, i fyfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol.

## 8. Myfyrwyr Rhyngwladol

### 8.1 Fisa a Chefnogaeth

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau am eich fisa wrth ymgeisio, neu ar ôl i chi gofrestru'n fyfyriwr, darllenwch we-ddalennau ein Gwasanaeth Cymorth a Gwybodaeth neu cysylltwch â'r Ymgynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol (ffôn: 01970 621548, e-bost immigrationadvice@aber.ac.uk).

Mae croeso ichi gysylltu â'r Ymgynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol os oes gennych bryderon yn ystod eich cyfnod ym Mhrifysgol Aberystwyth. Bydd yr Ymgynghorydd wrth law i gynnig cymorth a chyngor.

### 8.2 Cyfrifoldebau fisâu Myfyrwyr

Os oes gennych fisa Myfyriwr, dylech nodi fod gennych gyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r fisa hwn. Ceir manylion llawn am eich cyfrifoldebau yn: Deiliaid Fisa Myfyrwyr - Cyfrifoldebau : Cofrestrfa Academaidd , Prifysgol Aberystwyth .
Cofiwch roi gwybod i'ch Adran ac i'r Swyddog Cydymffurfiaeth (compliance@aber.ac.uk) os bydd unrhyw newid yn eich amgylchiadau a fydd yn effeithio ar eich statws fisa yn ystod eich amser yn y Deyrnas Gyfunol. Ceir manylion llawn am yr hyn ddylid sôn amdano yn:
https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/compliance-information/
Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'ch cyfrifoldebau yn gysylltiedig â'ch fisa Myfyriwr, cysylltwch â'r Swyddfa Cydymffurfio: compliance@aber.ac.uk

### 8.3 Presenoldeb

Mae'n bwysig cofio ei bod yn amod gan y Swyddfa Gartref fod Prifysgol Aberystwyth yn monitro eich presenoldeb a'ch ymroddiad yn ystod eich hastudiaethau. Gwelir gofynion Presenoldeb ac Ymroddiad Myfyrwyr yn https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/compliance-information/monitro-ymroddiad-a-phresenoldeb/a bydd eich Adran hefyd yn cadarnhau ei disgwyliadau i chi ynglŷn â phresenoldeb.
Rhaid i Uwchraddedigion Ymchwil astudio yn Aberystwyth am 44 wythnos bob blwyddyn academaidd.

Rhaid iddynt fynd i gyfarfod misol gyda'u harolygwyr i drafod cynnydd eu gwaith. Rydym yn deall bod rhai Uwchraddedigion Ymchwil yn gwneud gwaith maes ac felly na fydd modd iddynt gyfarfod â'u harolygydd wyneb yn wyneb bob mis. Os ydych yn gwneud gwaith maes ac nad oes modd ichi fod yn bresennol, mae'n bwysig rhoi gwybod i'ch Adran ac i'r Swyddfa Cydymffurfio

(compliance@aber.ac.uk) oherwydd bod yn rhaid rhoi gwybod i'r Swyddfa Gartref am y gwaith maes. Os caiff ei gymeradwyo, cofnodir eich absenoldeb yn 'absenoldeb gwaith maes'. Rhaid ichi gadw cysylltiad â'ch arolygydd trwy e-bost o leiaf unwaith y mis yn ystod eich gwaith maes. Disgwylir y byddai'r e-bost yn trafod y gwaith rydych chi'n ei wneud a lle bo'n bosibl yn atodi tystiolaeth o'r gwaith. Os na fyddwch yn gallu mynd i un o'r cyfarfodydd misol gyda'ch arolygydd am resymau eraill a bod hyn wedi ei awdurdodi caiff eich absenoldeb ei gofnodi yn 'Absenoldeb Awdurdodedig'.
Mae rhagor o wybodaeth am Absenoldeb Awdurdodedig i Uwchraddedigion Ymchwil i'w gweld yn: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/compliance-information/absenoldeb-awdurdodedig/

8.4 Tynnu'n ôl o'r Brifysgol

Os penderfynwch dynnu'n ôl o'r brifysgol gwnewch yn sicr eich bod yn dilyn holl weithdrefnau perthnasol y Brifysgol. Cysylltwch â'r Ymgynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol (immigrationadvice@aber.ac.uk) oherwydd bod goblygiadau i'ch fisa os ydych chi'n tynnu'n ôl o'r Brifysgol. Bydd angen hefyd trafod â'ch noddwr ariannol.

8.5 Cofrestru

Mae'n amod gan y Swyddfa Gartref fod yr holl Fyfyrwyr Rhyngwladol yn cyflwyno pasbort dilys a fisa i Brifysgol Aberystwyth cyn y gallant gofrestru'n llawn.

8.6 Os byddwch yn ystyried newid eich cwrs astudio yn ystod eich cyfnod ym Mhrifysgol Aberystwyth, cysylltwch â'r Ymgynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol a'r Swyddfa Cydymffurfiaeth cyn gwneud penderfyniad oherwydd gall newid cwrs effeithio ar eich fisa.

# 9. Gwasanaethau Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth (GG) sy'n darparu gwasanaethau TG a llyfrgell i Brifysgol Aberystwyth. I ddefnyddio ein hadnoddau mae angen cyfrif TG a cherdyn Aber.

9.1 Cyfrif TG

Byddwch yn gallu rhoi eich cyfrif TG Prifysgol ar waith yn fuan cyn i'ch cwrs ddechrau: https://myaccount.aber.ac.uk/open/activate/

Anfonir neges e-bost atoch pan fydd eich cyfrif yn barod ar eich cyfer.

Bydd y cyfrif TG yn darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- Eich cyfrif Office 365 ym Mhrifysgol Aberystwyth sy'n darparu e-bost, OneDrive a Teams a'ch Cofnod Myfyriwr
- Cysylltu eich dyfeisiau eich hun â rhwydwaith y Brifysgol
- Adnoddau cyfrifiadura yn y llyfrgelloedd ac mewn ystafelloedd cyfrifiadurol
- E-adnoddau, e-gyfnodolion ac e-lyfrau, a gwybodaeth am eich maes astudio
- Blackboard, sef rhith-amgylchedd dysgu Prifysgol Aberystwyth.
- Eich cyfrif llyfrgell i gadw trefn ar eich benthyciadau
- Meddalwedd am ddim i chi o dan drwydded y Brifysgol
- ApAber

9.2 Cerdyn Aber

Gallwch wneud cais am gerdyn Aber cyn gynted ag y byddwch wedi rhoi eich cyfrif TG ar waith: https://myaccount.aber.ac.uk/protected/newabercard
Os gwnewch hyn o leiaf ddeuddydd cyn cyrraedd y campws fe ddylsai fod yn barod i chi ei nôl pan gyrhaeddwch. Mae eich cerdyn Aber yn cael ei ddefnyddio:

- Yn gerdyn adnabod Myfyriwr
- Yn allwedd drws i'ch llety Prifysgol
- I brynu bwyd ym mwytai'r Brifysgol; ac os ydych yn byw mewn llety arlwyo fe fydd arian yn cael ei roi arno cyn i chi gyrraedd
- I fenthyca o'r llyfrgell
- I gael mynediad i'r ystafelloedd cyfrifiadurol 24-awr
- I gael mynediad i'r llyfrgell ac adeiladau eraill yn y Brifysgol
- Argraffu, llungopïo a sganio
- Yn gerdyn Undeb y Myfyrwyr
- Yn gerdyn i'r Ganolfan Chwaraeon

9.3 Gweithgareddau GG i fyfyrwyr newydd

Yn ystod Penwythnos Mawr y Croeso a'r Wythnos Ymgartrefu rydym yn trefnu llawer o weithgareddau i groesawu myfyrwyr newydd ac i gyflwyno'n gwasanaethau, er mwyn i chi allu gwneud y mwyaf ohonynt yn ystod eich cyfnod yma. Yn eu plith mae:

- Cymorth i roi eich cyfrif TG ar waith
- Nôl eich cerdyn Aber
- Teithiau o amgylch y llyfrgell
- Sesiynau rhagarweiniol yn y Llyfrgell i weld yr adnoddau a'r gwasanaethau

Mae manylion llawn i'w gweld ar y we-ddalen hon:
https://www.aber.ac.uk/cy/is/help/ug/welcome/

9.4 Adnoddau'r Llyfrgell

Mae gennym ddwy lyfrgell sy'n darparu amrywiaeth o ardaloedd dysgu hyblyg i grwpiau ac unigolion. Mae Llyfrgell Hugh Owen yng nghanol Campws Penglais ac mae ar agor 24 awr y dydd yn ystod y tymor. Dyma lle cedwir casgliadau'r dyniaethau, y gwyddorau bywyd, y gwyddorau cymdeithasol, addysg, astudiaethau gwledig, a Chymraeg.
Mae Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol, sydd hefyd ar Gampws Penglais, yn darparu ar gyfer pynciau ffiseg, mathemateg a chyfrifiadureg.
Mae'r llyfrgelloedd hefyd yn dal nifer o gasgliadau prin ac arbennig yn ogystal â chyfoeth o ddeunyddiau dysgu eraill. Mae ein deunyddiau ar-lein ar gael yn unrhyw le ar unrhyw adeg trwy gatalog a gwasanaeth canfod Primo: http://primo.aber.ac.uk/ ac mae ehangder o ddeunyddiau ar gael, yn amrywio o Amaethyddiaeth i Ysgrifennu Creadigol.
Mae staff arbenigol ar gael i roi cymorth pwnc-benodol i'ch helpu i fanteisio i'r eithaf ar eich amser a'r adnoddau. Gallwch gysylltu â hwy trwy Teams, sgwrs ar-lein, ffôn neu e-bost https://libguides.aber.ac.uk/

Gallwch gofrestru am aelodaeth 3 blynedd am ddim yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth, sy'n cadw casgliad helaeth o gyfnodolion wedi eu hargraffu a chasgliadau arbenigol eraill, llawer

ohonynt ar gael ar ffurf ddigidol.

9.5 Ymholiadau

Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwe-ddalennau:
https://www.aber.ac.uk/cy/is
Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cofiwch gysylltu â ni: Ffôn: 01970 622400; E-bost: gg@aber.ac.uk

## 10. Llyfrgell Genedlaethol Cymru

https://www.llgc.org.uk/

10.1 Mae presenoldeb Llyfrgell Genedlaethol Cymru yma yn Aberystwyth yn cyfoethogi'r cyfleoedd am astudiaethau uwchraddedig, yn enwedig gan fod y Llyfrgell y drws nesaf i gampws y Brifysgol. A hithau'n un o'r chwe llyfrgell adnau gyfreithiol ym Mhrydain ac Iwerddon mae'r Llyfrgell yn derbyn llyfrau a chyfnodolion cyfredol, mapiau, cerddoriaeth a deunydd printiedig arall, a hefyd yn casglu deunyddiau electronig. Ar ben hyn, mae hefyd yn cadw toreth o lawysgrifau ac archifau, lluniau, ffotograffau a darluniau sy'n ymwneud â Chymru. Mae'n gartref i Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru, sy'n cynnwys casgliad helaeth o ffilmiau, hen ffilmiau teledu a recordiadau sain sydd o ddiddordeb Cymreig. Yn eu crynswth mae adnoddau'r Llyfrgell Genedlaethol yn drysordy cenedlaethol i ysgolheictod rhyngwladol.

10.2 Mae'r Ystafelloedd Darllen ar agor o 9.30yb tan 6.00yp yn ystod yr wythnos ac o 9.30yb tan 5.00yp ar ddydd Sadwrn. Mae'r Llyfrgell ar gau ar ddydd Sul, ar wyliau cyhoeddus ac ar rai dyddiau eraill yn ystod y flwyddyn, a gwasanaethau cyfyngedig yn unig a gynigir yn yr Ystafell Ddarllen ar wyliau cyhoeddus. Gallwch gael mynediad i'r Llyfrgell trwy gyfrwng Tocyn Darllenydd sydd ar gael o'r Llyfrgell neu ar-lein yn https://www.llyfrgell.cymru/
***Mae holl wasanaethau adeilad y Llyfrgell ar agor unwaith eto nawr, ond rhaid ichi archebu eich lle cyn ymweld.***

10.3 I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Llyfrgell Genedlaethol Cymru (gweler y cyfeiriadau).

## 11. Gwasanaeth Gyrfaoedd

https://www.aber.ac.uk/cy/studentservices/careers

11.1 Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cydnabod y gall cymwysterau uwchraddedig roi mantais i'n myfyrwyr yn y farchnad swyddi. Rydym yn darparu amrywiaeth o wasanaethau wedi'u teilwra i anghenion ein huwchraddedigion, gan gynnwys ymgynghorydd gyrfaoedd penodol i uwchraddedigion, gweithdai penodol i ddatblygu gyrfa, tudalennau penodol ar ein gwefan ac ymgynghoriadau gyrfa un-i-un, naill wyneb yn wyneb neu ar-lein.

Ar ben hyn, mae uwchraddedigion yn gallu manteisio'n llawn ar ein gwasanaethau gyrfaoedd ehangach, hyd yn oed ar ôl graddio. Mae'r rhain yn cynnwys ymgynghoriadau gyrfa y gallwch eu trefnu eich hun, sesiynau galw heibio'n dyddiol ar gyfer ymholiadau am yrfaoedd a gwirio CV/ceisiadau swydd, cyflwyniadau gan gyflogwyr, gweithdai a drefnir yn ganolog ar bob agwedd ar reoli gyrfa yn effeithiol, cyfleoedd penodol am brofiad gwaith trwy ein rhaglen AberYmlaen+, gwefan gynhwysfawr yn gyforiog o adnoddau defnyddiol, a phorth penodol i swyddi gwag a digwyddiadau fel y gall myfyrwyr weld ein dewis o wasanaethau ar-lein - GyrfaoeddABER

11.2 Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cydweithio'n agos â phob adran academaidd ac yn cyflwyno gweithdai datblygu gyrfa o fewn Rhaglen Ymchwilwyr Aberystwyth. Mae ein hymgynghoriadau gyrfa un-i-un gydag uwchraddedigion yn gyfle i'r myfyrwyr feddwl o ddifrif am eu hamcanion ac am gyfeiriad eu gyrfaoedd i'r dyfodol, gweld sut i farchnata cymwysterau uwchraddedig i amrywiaeth o gyflogwyr, deall prosesau recriwtio penodol, a'u cymhwyso'u hunain yn effeithiol ar eu cyfer, ac elwa ar hyfforddiant ar gyfer cyfweliadau am swyddi. Cynigir y cymorth hwn wyneb yn wyneb ac ar-lein, ac mae'n hawdd i'w drefnu trwy'r ddolen hon:
https://careers.aber.ac.uk/

11.3 Anogir uwchraddedigion i gysylltu â'r gwasanaeth gyrfaoedd yn gynnar i sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n llawn ac yn barod i gymryd cam nesaf eu taith yn ystod eu cyfnod yma ym Mhrifysgol Aberystwyth ac ar ôl graddio.

11.4 I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Gyrfaoedd yn y Ganolfan Croesawu Myfyrwyr, Llandinam ar Gampws Penglais. Gallwch ymweld â'r tîm, anfon e-bost at gyrfaoedd@aber.ac.uk, ffonio 01970 622378 neu droi at ein gwefan:
https://www.aber.ac.uk/cy/studentservices/careers/

## 12. Y Ganolfan Gerdd

Os ydych yn chwarae offeryn, yn canu neu'n mwynhau gwrando, mae hi'n werth cael golwg ar raglen cerddorfa, band a chôr y Ganolfan Gerdd. Mae'r Ganolfan yn darparu cyfleusterau ymarfer ac mae gwersi unigol ar gael.
Cynigir Ysgoloriaethau Cerdd i rhai sy'n canu a/neu'n chwarae offeryn cerddorfaol/band i safon uchel. Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth.
www.aber.ac.uk/cy/music neu galwch heibio am sgwrs.

## 13. Chwaraeon Aber

Aelodaeth o'r Ganolfan Chwaraeon i Uwchraddedigion
https://www.aber.ac.uk/cy/sportscentre/membership

13.1 Mae adnoddau dan do y Ganolfan Chwaraeon ar gampws Penglais ac maent yn elfen greiddiol o fywyd y myfyrwyr. Mae tîm y Ganolfan yn gweithio'n galed i greu lle diogel i'r holl fyfyrwyr allu ymarfer corff ac ymlacio, a mwynhau chwaraeon ac ymarfer corff. Mae'r naws yn hawddgar a chyfeillgar, a'n nod yw hyrwyddo iechyd a lles trwy ddarpariaeth safonol o chwaraeon a dosbarthiadau ymarfer sy'n rhoi gwerth am arian.

13.2 Rydym yn cynnig mynediad rhad ac am ddim a di-gyfyngiad i'r gampfa, dosbarthiadau, sbinio, nofio, sawna, a'r wal ddringo i unrhyw fyfyriwr Uwchraddedig sy'n aros yn neuaddau'r brifysgol, ac am £135 i bawb nad ydynt yn breswylwyr, am y flwyddyn academaidd gyfan. Trwy'r cynnig gallwch hefyd fanteisio ar amserau gwag ar yr amserlen ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden, megis badminton a phêl-droed.

13.3 Beth sydd ar gael?
Y brif neuadd chwaraeon yw cartref ein campfa ar ei newydd wedd, gydag ardal cryfhau a chyflyru,

ac ystafell codi pwysau. Mae gennym bwll nofio a sawna lle ceir cadeiriau ymlacio, man tawel ac ystafell therapi yn ogystal ag ardal haul newydd awyr agored. Cynhelir y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau dawns, y crefftau ymladd a'r dosbarthiadau ymarfer mewn grwpiau yn y stiwdio ddawns. Adnodd arall yw'r wal ddringo.

Wrth ymyl ardal y babell mae cae chwarae 3G ar wahân o faint llawn ac mae trac rhedeg 400m dwy-lôn yn amgylchynu'r ddau adnodd.

Neuadd chwaraeon aml-bwrpas yw'r Gawell Chwaraeon sy'n rhoi lle i 6 chwrt badminton, criced, hoci, pêl fasged, a phêl rwyd dan-do, 2 gwrt pêl foli, saethyddiaeth a 2 gwrt sboncen.

Mae'r gampfa loeren ar gael i'w defnyddio gan yr holl fyfyrwyr sy'n byw yn llety'r Brifysgol. Lleolir hon yn Y Sgubor nesaf at y llety myfyrwyr yn Fferm Penglais.

13.4 Clybiau Myfyrwyr

Â dewis o fwy na hanner cant o glybiau i fyfyrwyr ac uwchraddedigion, mae digon o gyfle i roi cynnig ar gamp newydd, neu gymryd rhan yn eich hoff chwaraeon. I weld rhestr lawn o'r clybiau, ewch i'r wefan chwaraeon a gweithgareddau: https://www.abersu.co.uk/teamaber/sports/clublist/

Dewch i Wythnos y Glasfyfyrwyr lle gallwch gwrdd â Llywydd yr Undeb Athletau sy'n cydgysylltu chwaraeon y myfyrwyr eleni a chael gwybod am y clybiau, ymhle maen nhw'n cyfarfod ac yn hyfforddi, a sut i ymuno. Mae'n gyfle hefyd i gwrdd â staff y Ganolfan Chwaraeon ac fe gewch wybodaeth am ymuno â'r gampfa, gweld ymhle mae popeth, sut i gyrraedd, beth sydd ei angen a llwyth o wybodaeth am ffitrwydd. Ewch i'n gwe-ddalennau i gael rhagor o fanylion.

13.5 Gobeithio y byddwch yn mwynhau'ch amser ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac yn teimlo'n rhan o gymuned a chwmnïaeth y Ganolfan Chwaraeon. Os oes gennych ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â ni trwy ffonio 01970 621500 / 622280, e-bostio sports@aber.ac.uk neu fynd i'n gwefan: www.aber.ac.uk/sportscentre/

## 14. Undeb y Myfyrwyr, Aberystwyth

https://www.umaber.co.uk / @UMAberSU ar y cyfryngau cymdeithasol

14.1 Os mai hwn yw eich tro cyntaf yn Aberystwyth neu os ydych wedi cael eich dal yn swigen Aber ... rydyn ni'n falch iawn eich bod wedi penderfynu astudio yma yn y Brifysgol ger y lli!

Cyn gynted ag y cofrestrwch ar eich cwrs, byddwch yn dod yn rhan o Undeb y Myfyrwyr yma yn Aberystwyth. Mae UMAber (fel y'i gelwir) yn frwd ynglŷn â sicrhau eich bod chi'n cael yr addysg a'r profiad haeddiannol, ac mai eich blaenoriaethau chi yw ein blaenoriaethau ni.

14.2 Pwy yw UMAber?

Elusen annibynnol yw UMAber, a arweinir gan fyfyrwyr, ac mae holl fyfyrwyr Aberystwyth yn aelodau ohoni.

Fel Undeb Myfyrwyr rydym eisiau i fyfyrwyr Aber fwynhau eu bywyd fel myfyrwyr. Credwn y dylai myfyrwyr Aber fod yn hapus ac yn iach, â'r hyder a'r cyfle i lwyddo, gan wneud cyfeillion am oes a datblygu dyfodol llawn addewid.

14.3 Ble mae'r Undeb?

Mae adeilad yr Undeb ar ganol campws Penglais, nesaf at Ganolfan y Celfyddydau. Yn yr adeilad mae ein Swyddogion a'r Timau Staff, yn ogystal â'n Derbynfa ddefnyddiol lle cewch gymorth ag unrhyw gwestiwn sydd gennych. Rydym yn rhannu ein hadeilad â siop a bar y Brifysgol, sy'n llawn cynigion gwych ac yn ardal ddelfrydol i ymlacio rhwng darlithoedd (os oes gennych chi rai!).

14.4 Beth all yr Undeb ei wneud i chi?

Cynrychiolaeth Academaidd:
Eich llais chi sy'n bwysig ac rydyn ni'n cynorthwyo i roi ffurf i'ch profiad academaidd. Mae ein cynrychiolwyr Academaidd yno i gyfleu eich anghenion a'ch pryderon academaidd yn uniongyrchol i'r Brifysgol. Mae dros 40 o gynrychiolwyr sy'n benodol ar gyfer Astudiaethau Uwchraddedig.

Canolfan Cynghori:
Rydyn ni'n cynorthwyo myfyrwyr i fod mor hapus ac iach â phosibl. Rydyn ni'n cynnig cyngor annibynnol ar bob math o faterion sy'n effeithio ar fyfyrwyr, gan gynnwys cyllid, llety a materion academaidd.

Cyfleoedd:
Dymunwn gynorthwyo myfyrwyr i wneud cyfeillion oes. Gallwch ymuno â chymuned #TîmAber o dros 130 o glybiau chwaraeon a chymdeithasau yn ogystal ag amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli. Mae gennym hefyd rwydwaith uwchraddedig sy'n rhoi cyfle i gyfarfod ag uwchraddedigion eraill o'r un anian â chi. Ynghyd â chyfleoedd rheolaidd i wirfoddoli, rhowch gynnig ar rywbeth newydd neu ddechrau rhywbeth eich hun hyd yn oed! Dyma'r ffordd orau o bell ffordd i wneud ffrindiau a meithrin eich sgiliau a'ch profiad i'ch paratoi am eich antur nesaf.

Newid Aber:
Cawn ein harwain gan fyfyrwyr, a gweithiwn er lles myfyrwyr. Dewch i gymryd rhan yn y gwaith o lunio UMAber drwy rannu syniadau ar gyfer gwella, pleidleisio yn ein hetholiadau neu ddod yn arweinydd myfyrwyr eich hun. Mae etholiadau UMAber yn cynnig amrywiaeth o ffyrdd y gall myfyrwyr gael dylanwad uniongyrchol ar yr hyn a wnawn a datblygu ein gwaith.

# Rhestr o Gyfeiriadau

*(Noder: I wneud galwad ffôn neu anfon ffacs o'r tu allan i'r DG, defnyddiwch y cod + 44 1970 yn lle 01970)*

**GWASANAETHAU BRYS**

(24 awr)

I ffonio'r Gwasanaethau Brys (Heddlu, Ambiwlans, Y Frigâd Dân, Gwylwyr y Glannau) deialwch 999 neu 122 o ffôn symudol.
I gael cymorth brys gan staff Diogelwch Safle'r Brifysgol, ffoniwch 01970 622649.
I gael cymorth brys yn Neuaddau'r Brifysgol ffoniwch 01970 622900

**Prif Gyfnewidfa'r Brifysgol**

(cysylltydd ar gael rhwng 8.45 a 17.15 o ddydd Llun i ddydd Gwener) Ffôn: 01970 623111

# Cyfeiriadau a Rhifau Ffôn

**Swyddfa Derbyn Graddedigion, y Gofrestrfa Academaidd**
Adeilad Cledwyn, Campws Penglais,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3DD
Ffôn: 01970 622270
E-bost: derbyniadau@aber.ac.uk
Ar y we: www.aber.ac.uk/cy/postgrad/

**Y Gofrestrfa Academaidd**
Swyddfa Gweinyddu Myfyrwyr,
Adeilad Cledwyn, Campws Penglais,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3DD
Ffôn: 01970 622272 / 622290
E-bost: pgsstaff@aber.ac.uk

**Ysgol y Graddedigion**
Adeilad Cledwyn, Campws Penglais,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3DD
Ar y we: www.aber.ac.uk/cy/grad-school
E-bost: ysgol.graddedigion@aber.ac.uk
Ffôn: Swyddfa'r Graddedigion: 01970 622219
Ffôn: Swyddog Datblygu Sgiliau: 01970 621618

**Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd**
Prifysgol Aberystwyth, Adran Llywodraethu
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BY
Ffôn: 01970 622169 / 01970 622073
E-bost: hasstaff@aber.ac.uk
Ar y we: www.aber.ac.uk/cy/hse

**Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi**
12 Cefn Llan, Parc Gwyddoniaeth,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3AH
E-bost: drbi@aber.ac.uk
Ar y we: www.aber.ac.uk/cy/rbi

**Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr**
Canolfan Croesawu Myfyrwyr, Campws
Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3FB
Ffôn: 01970 621761neu 01970 622087
E-bost: cymorth-myfyrwyr@aber.ac.uk
Ar y we: https://www.aber.ac.uk/cy/studentservices/

**Cynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol**
Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd, Canolfan Croesawu Myfyrwyr, Campws Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3FB
Ffôn: 01970 621548
E-bost: immigrationadvice@aber.ac.uk
Ar y we: Visa Support & Advice Service : Student Services , Aberystwyth University

**Swyddfa Cydymffurfiaeth**
Adeilad Cledwyn, Campws
Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 3DD Ffôn:
01970 621769
E-bost: compliance@aber.ac.uk
Ar y we: : https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/compliance-information/

**Gwasanaethau Gwybodaeth**
Llyfrgell Hugh Owen, Campws Penglais
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3DZ
Ffôn 01970 622400
E-bost: gg@aber.ac.uk
Ar y we: www.aber.ac.uk/cy/is

**Undeb y Myfyrwyr**
Yr Undeb, Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3DX Ffôn: 01970 621700
E-bost: undeb@aber.ac.uk
Ar y we:
https://www.umaber.co.uk/

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
Aberystwyth, Ceredigion SY23
3BU Ffôn: 01970 632800
Ffacs: 01970 615709
E-bost: gofyn@llgc.org.uk
Ar y we: www.llgc.org.uk/

**Gwasanaeth Gyrfaoedd**
Y Ganolfan Croesawu Myfyrwyr
Campws Penglais, Aberystwyth, Ceredigion
SY23 3DB
Ffôn:01970 622378
E-bost: gyrfaoedd@aber.ac.uk
Ar y we: https://www.aber.ac.uk/cy/studentservices/careers/

**Y Ganolfan Gerdd**
Ffôn: 01970 622685
E-bost: music@aber.ac.uk
Ar y we: www.aber.ac.uk/music

**Y Ganolfan Chwaraeon**
Swyddfa Aelodaeth: 01970 621500
Swyddog Datblygu Chwaraeon:
01970 622278 E-bost:
sports@aber.ac.uk
Derbynfa: 01970 622280
Swyddfa'r Undeb Athletau: 01970 621754/55
Ar y we: https://www.aber.ac.uk/cy/sportscentre/

# Rhan Dau

# CANLLAWIAU I FYFYRWYR AR GYRSIAU GRADD UWCH

## RHESTR TERMAU A PHWYNTIAU I'W NODI

Efallai y bydd rhai o'r termau a ddefnyddir yn y Canllawiau hyn yn anghyfarwydd ichi. Bydd ystyr arbennig i rai ohonynt yn rheolau a rheoliadau'r Brifysgol, ac efallai y bydd yr ystyron hynny'n wahanol i'r hyn a ddefnyddir mewn prifysgolion eraill, neu efallai na fydd yr ystyr yn gwbl amlwg. Gall hyn beri dryswch rhwng myfyrwyr a'r Brifysgol o bryd i'w gilydd. Mae'r rhestr hon yn diffinio rhai o'r termau allweddol a welwch, ac yn nodi'r mannau lle y gellid camddeall pethau.

**Llythyr Cynnig** – y llythyr cynnig oddi wrth y Swyddfa Derbyn Graddedigion yn rhoi cynnig ffurfiol o le ar gwrs. Mae'n rhoi manylion am y cwrs ac unrhyw amodau sydd angen i'r myfyriwr eu cyflawni. Dim ond y Swyddfa Derbyn Graddedigion sy'n gallu cynnig lle yn ffurfiol i astudio yn y Brifysgol.

**Matricwleiddio** - Os yw darpar fyfyrwyr yn seilio'u cais ar gymwysterau a gawsant eisoes neu gymwysterau y maent yn astudio amdanynt mewn sefydliad heblaw Prifysgol Aberystwyth, gall y Brifysgol ofyn i weld copïau o'r tystysgrifau yn rhan o'r broses dderbyn ac er mwyn cadarnhau a chymeradwyo'r cymwysterau hynny. Bydd gofyn i grŵp sampl o 10% o'r garfan myfyrwyr gyflwyno dogfennau gwreiddiol. Matricwleiddio yw enw'r broses hon. Rhaid i fyfyrwyr nad ydynt yn raddedigion o Brifysgol Aberystwyth fatricwleiddio (naill ai dros dro neu yn llawn) cyn cychwyn ar eu cwrs astudio.

Gall ymgeiswyr am raglenni Meistr (ond nid rhaglenni PhD), nad ydynt yn raddedigion, fatricwleiddio ar sail profiad gwaith perthnasol, a bydd dilysu cwmpas a pherthnasedd y profiad yn rhan o'r drefn dderbyn.

**Gohirio Mynediad** – os yw'r Brifysgol wedi cynnig lle i fyfyriwr ond ei fod yn methu â chychwyn ar yr adeg a nodwyd am resymau ariannol neu resymau eraill, mae modd gofyn am ohirio mynediad tan ddyddiad arall. Bydd y Swyddfa Derbyn Graddedigion yn rhoi gwybod iddynt a ellir dal y lle ar agor iddynt ac os felly, am ba hyd.

**Cofrestru** – rhaid i fyfyrwyr gofrestru yn y Brifysgol ar ddechrau eu rhaglen astudio. Ar ôl cofrestru, mae myfyrwyr yn cael defnyddio adnoddau'r Brifysgol. Dylai myfyrwyr nodi na fyddant yn fyfyrwyr yn y Brifysgol tan iddynt gofrestru, er eu bod wedi cwblhau'r broses dderbyn a bod lle i astudio wedi ei gynnig iddynt.

**Cyfnod cofrestru** – mae gan bob rhaglen astudiaethau uwchraddedig leiafswm cyfnod cofrestriad. Hwn yw'r cyfnod mae'n rhaid i'r myfyriwr dalu ffioedd dysgu amdano a chofrestru'n ffurfiol ar ei gyfer ar ddechrau'r sesiwn. Yn ystod y cyfnod hwn mae myfyrwyr yn cael defnyddio adnoddau'r Brifysgol yn rhan o'r drefn. Bydd y Brifysgol yn ardystio yn ystod y cyfnod hwn fod y myfyriwr wedi cofrestru'n fyfyriwr amser llawn neu ran amser yn y Brifysgol. Yn aml bydd angen ardystiad o'r fath ar fyfyrwyr, er enghraifft er mwyn cael fisa neu ostyngiad i'r Dreth Gyngor.

# 1. Rhagarweiniad

Mae nodau ac amcanion y Brifysgol i'w gweld yn ei Chynllun Strategol 2018-2023. Yn benodol yng nghyswllt uwchraddedigion, amcanion y Strategaeth Uwchraddedig yw:

1. Cefnogi addysg ac ymchwil uwchraddedig,
2. Adeiladu a chynyddu'r gymuned uwchraddedig,
3. Atgyfnerthu'r profiad i fyfyrwyr uwchraddedig, cynyddu cyfleoedd gyrfa a gwella datblygiad myfyrwyr (h.y. eu gwneud yn gyflogadwy),
4. Gwella/cynnal y cyfraddau cwblhau, a
5. Sicrhau bod y ddarpariaeth uwchraddedig yn Aberystwyth yn ddeniadol, yn berthnasol ac wedi'i gosod ar sylfaen ariannol gadarn a chynaliadwy.

Datblygwyd y Canllawiau hyn yn rhan o ymrwymiad y Brifysgol i'w myfyrwyr sydd ar gyrsiau uwchraddedig. Mae iddynt ddiben deublyg. Yn gyntaf, maent yn egluro cyfrifoldeb y Brifysgol a'r adrannau academaidd tuag at uwchraddedigion, er mwyn iddynt wybod beth y gallant ei ddisgwyl oddi wrth y Brifysgol wrth iddynt astudio. Yn ail, mae'r Canllawiau'n egluro bod gan y myfyrwyr eu hunain gyfrifoldeb am eu hastudiaethau, er mwyn iddynt wybod beth mae'r Brifysgol yn ei ddisgwyl ganddynt hwythau. Dylid darllen y rhain ochr-yn-ochr â'r rheoliadau ffurfiol yn gysylltiedig â gweinyddiaeth cynlluniau gradd, a dogfennau manwl eraill ynglŷn â gweithgaredd uwchraddedigion fel y nodir isod.

# 2. Derbyn Myfyrwyr

## 2.1 Trefn Ymgeisio

Rhaid anfon ceisiadau am bob cynllun uwchraddedig at y Swyddfa Derbyn Myfyrwyr. Bydd staff y Swyddfa Derbyn Myfyrwyr yn asesu pa mor gymwys yw ymgeisydd i gael ei dderbyn i raglen uwchraddedig ac yn ystyried yn benodol gymwysterau cynharach (gan gynnwys cymwysterau nas cafwyd yn y Deyrnas Gyfunol), rhuglder yn yr iaith Saesneg ac unrhyw amgylchiadau eraill a amlinellir yn y cais, megis profiad gwaith blaenorol.

Lle bo modd, gwneir penderfyniadau yn ganolog gan staff y Swyddfa Derbyn Myfyrwyr ynghylch ceisiadau am gyrsiau gradd uwchraddedig. Caiff achosion mwy cymhleth, a phob cais am gwrs uwchraddedig yn yr Ysgol Gelf a'r Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol (lle mae'n rhaid adolygu enghreifftiau o waith blaenorol, neu lle caiff ymgeiswyr eu hystyried ar sail profiad gwaith blaenorol) eu hanfon ymlaen i'r adran academaidd berthnasol i'w hystyried.

## 2.2 Trefn Penderfynu

Gwneir penderfyniadau canolog ynghylch ceisiadau am gyrsiau uwchraddedig gan staff yn y Swyddfa Derbyn Myfyrwyr, yn seiliedig ar feini prawf y cytunwyd arnynt gan adrannau academaidd yn y Brifysgol. Os yw ceisiadau am gyrsiau uwchraddedig yn cael eu hanfon ymlaen i adrannau academaidd, bydd y Swyddfa Derbyn Myfyrwyr yn cynghori ynglŷn â statws yr ymgeisydd o ran matricwleiddio a rhuglder yn yr iaith Saesneg, cyfleoedd cyllido posibl, ac yn darparu unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

Mae angen datganiad personol a geirda i astudio ar bob cwrs uwchraddedig, ond gellir anfon ceisiadau ymlaen at yr adrannau i'w hystyried cyn i'r dogfennau hyn ddod i law. Mewn achosion o'r fath, gall cyflwyno'r dogfennau fod yn amod o unrhyw gynnig a wneir. Gall gymryd yn hwy i wneud penderfyniad os yw'r cais yn gysylltiedig â chystadleuaeth ysgoloriaeth, neu os nad yw'r wybodaeth/dogfennau priodol wedi'u darparu yn y cais.

Ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud i dderbyn ymgeisydd ar gwrs uwchraddedig, boed gan y Swyddfa Derbyn Myfyrwyr neu'r adran academaidd berthnasol, bydd y Swyddfa Derbyn Myfyrwyr yn cysylltu â'r ymgeisydd i roi gwybod am y penderfyniad mewn llythyr cynnig o le i astudio ar raglen uwchraddedig. Bydd ymgeiswyr hefyd yn cael gwybod yn ysgrifenedig os yw eu cais wedi bod yn aflwyddiannus. Dim ond ar ôl i'r ymgeisydd gyflawni pob amod a nodir yn y llythyr cynnig, neu gytuno iddynt, y gall y rhaglen astudio gychwyn. Gallai'r amodau fod yn gysylltiedig er enghraifft â chymhwyster ar lefel arbennig mewn rhaglen astudio gyfredol neu flaenorol, tystiolaeth o wybodaeth ddigonol o'r iaith Saesneg, neu gyflwyno dogfennau ychwanegol.

Dylid ateb unrhyw gwestiynau sydd gan yr ymgeisydd ynglŷn â manylion penodol eu rhaglen uwchraddedig arfaethedig cyn i'r ymgeisydd gyflwyno'r Ffurflen Ymateb i Gynnig yn derbyn telerau'r cynnig a chyn cadarnhau lle i astudio (yn y Llythyr Terfynol yn Cadarnhau Lle: gweler 2.6 isod). Er bod Adrannau academaidd yn cael cysylltu ag ymgeiswyr yn uniongyrchol i awgrymu'n anffurfiol eu bod yn barod i'w derbyn ar gwrs, dim ond y Swyddfa Derbyn Myfyrwyr sydd wedi ei hawdurdodi i wneud cynnig ffurfiol i gael astudio ar gwrs uwchraddedig yn y Brifysgol.

2.3 Dylid ystyried cefndir academaidd yn unol â gofynion mynediad y Brifysgol a'r Adran. Sylwer na fydd rhai myfyrwyr sy'n gallu matricwleiddio o reidrwydd yn gallu cyflawni gofynion mynediad penodol y cwrs perthnasol. Mae gofynion mynediad safonol y cyrsiau uwchraddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth i'w gweld yn https://www.aber.ac.uk/cy/postgrad/apply/entryrequirements/

2.4 Gofynion Ariannol

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd lenwi Ffurflen Datganiad Ariannol i ddangos sut y bwriadant dalu am eu hastudiaethau. Bydd angen i ymgeiswyr rhyngwladol dalu blaendal hefyd, na fydd yn cael ei ad-dalu (tuag at eu ffioedd dysgu). Hefyd, bydd statws ariannol ymgeiswyr sy'n gwneud cais am Fisa Myfyriwr DG yn cael ei wirio cyn rhoi Tystysgrif Derbyn i Astudio iddynt i ddibenion cael fisa. Rhoddir manylion costau'r astudiaethau arfaethedig yn y llythyr cynnig ffurfiol a ddaw oddi wrth y Swyddfa Derbyn Myfyrwyr. Bydd angen i fyfyrwyr sy'n cael eu noddi gyflwyno hysbysiad swyddogol yn datgan y byddant yn derbyn grant. Rhaid i bob dogfen o'r fath fod yn gopi gwreiddiol neu'n gopi ardystiedig (wedi'u cyfieithu i'r Saesneg lle bo angen). Os cynigir unrhyw nawdd gan y Brifysgol, naill ai'n ganolog neu gan yr Adran, dylid gwneud hynny'n ysgrifenedig a chan nodi union lefel, hyd a ffynhonnell y nawdd honno. Dylai cynigion nawdd o ffynonellau allanol hefyd gynnwys yr un wybodaeth benodol.

2.5 Amodau Derbyn

Os nad yw ymgeiswyr yn medru cyflawni'r gofynion a nodwyd yn y llythyr cynnig ar hyn o bryd, neu os nad ydynt am resymau eraill yn dymuno derbyn y lle astudio am y sesiwn gyfredol, gallant wneud cais i ohirio'r cynnig tan adeg yn nes ymlaen. Gellir gohirio lle am gyfnod hyd at ddwy flynedd. Mewn achosion eithriadol, gellid ychwanegu amodau newydd ar y cynnig gwreiddiol i gynigion sy'n cael eu gohirio. Mae hyn yn unol â'r Ddeddf Diogelu Defnyddwyr.

2.6 Ar ôl i holl amodau'r cynnig gael eu cyflawni, neu yn ambell achos ar ôl cytuno ar yr amodau, bydd y Swyddfa Derbyn Myfyrwyr yn ysgrifennu at yr ymgeisydd i gadarnhau ei fod wedi cwblhau'r drefn derbyn myfyrwyr. Bydd hyn trwy gyfrwng Llythyr Terfynol yn Cadarnhau Lle.

2.7 Bydd myfyrwyr rhyngwladol amser llawn ar y campws yn cael Tystysgrif Derbyn i Astudio hefyd i ddibenion cael fisa. Dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau eu hunain o dan reoliadau fisa myfyriwr DG, yn ogystal â chyfrifoldebau'r Brifysgol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/compliance-information/

2.8 Polisi'r Brifysgol yw cynnig lle astudio ar sail academaidd yn unig. Ni ddylai unrhyw ymgeisydd am gwrs uwchraddedig gael triniaeth llai ffafriol oherwydd oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd, bod yn fam, bod yn rhiant, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, neu unrhyw sail cyffelyb.

Os yw ymgeisydd wedi datgelu anabledd neu gyflwr meddygol yn ystod y drefn dderbyn, ac wedi rhoi caniatâd i'r Swyddfa Derbyn Myfyrwyr rannu'r wybodaeth hon â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr, bydd y Brifysgol yn cymryd camau i weithio gyda'r ymgeisydd i asesu'r angen am addasiadau rhesymol addas, a lle bo angen gweithredu'r addasiadau hynny, er mwyn i'r myfyriwr allu bwrw i'w astudiaethau yn yr un modd â chyd-fyfyrwyr. Dylai ymgeiswyr gysylltu'n uniongyrchol â'r Gwasanaethau Cymorth (anabledd@aber.ac.uk) i drafod unrhyw ofynion ychwanegol sydd ganddynt.

2.9 Cyfrifoldeb ymgeiswyr unigol yw datgan unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol a allai effeithio ar eu hastudiaethau eu hunain a/neu beryglu diogelwch staff a myfyrwyr y Brifysgol. Mae gan fyfyrwyr gyfrifoldeb i ddatgelu unrhyw resymau cyfreithiol sy'n eu cyfyngu neu'n eu hatal rhag mynd i mewn i eiddo'r brifysgol, a/neu weithio gydag unigolion, a/neu weithio gyda grwpiau, a/neu ddefnyddio'r rhyngrwyd trwy systemau ac adnoddau'r Brifysgol. Gellid ystyried bod methu â datgan yr wybodaeth hon i'r Brifysgol yn torri Gweithdrefnau Disgyblaeth y Brifysgol a gellid gosod cosbau yn unol â hynny.

## 3. Myfyrwyr Anabl a Myfyrwyr â Chyflyrau Iechyd a Chyflyrau Niwroamrywiol Cymhleth

3.1 Mae gan Brifysgol Aberystwyth ymrwymiad i gynnal a datblygu dysgu ac ymchwil o'r safon uchaf. Anelwn i sicrhau bod ein hadnoddau academaidd ar gael i bawb sy'n cyflawni ein gofynion mynediad ac i sicrhau bod myfyrwyr anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd a chyflyrau niwroamrywiol cymhleth yn gallu manteisio'n deg ar bob agwedd ar ddarpariaeth y cwricwlwm, gan gynnwys darlithoedd, teithiau maes, lleoliadau gwaith ac asesiadau.

3.2 I gael gwybodaeth am yr amrywiaeth o gymorth sydd ar gael cysylltwch ag un o'n Hymgynghorwyr Hygyrchedd. Ceir manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael ar y gwe-ddalennau canlynol: https://www.aber.ac.uk/cy/sscs/accessibility/

## 4. Cofrestru ac Ymgynefino

4.1 Yr arfer yw bod angen i uwchraddedigion amser llawn ar gyrsiau Meistr gofrestru a thalu ffioedd am un flwyddyn, a myfyrwyr rhan amser am ddwy flynedd. Anfonir gwybodaeth am gofrestru ac ymgynefino ymlaen llaw at bob darpar fyfyriwr.

4.2 Rhaid i bob myfyriwr amser llawn ar gyrsiau gradd uwch gymryd rhan yn y rhaglen ymgynefino a chofrestru yn ystod Penwythnos Mawr y Croeso a'r Wythnos Ymgartrefu. Caiff myfyrwyr rhan-amser eu hannog i gymryd rhan yn y rhaglen a rhaid iddynt gofrestru yn ystod yr Wythnos Groesawu. O dan amgylchiadau eithriadol, efallai y caiff myfyrwyr ganiatâd i

gofrestru ar ddyddiad arall.

4.3 Ar ôl cofrestru'n ffurfiol, bydd y Brifysgol yn caniatáu i fyfyrwyr ddefnyddio ei hadnoddau. Bydd yn darparu tystysgrif gofrestru os gwneir cais amdani trwy adran Dystysgrifau'r Gofrestrfa Academaidd - e-bost **aocstaff@aber.ac.uk** neu gellir ei harchebu ar y wefan **https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/certification/**

4.4 Trefnir rhaglen ymgynefino gan Ysgol y Graddedigion i bob un o'r uwchraddedigion newydd ar ddechrau pob blwyddyn academaidd. Rhoddir manylion y rhaglen i fyfyrwyr newydd cyn iddynt gyrraedd Aberystwyth. Bydd y rhaglen yn fodd o esbonio trefniadaeth ac adnoddau'r Brifysgol i fyfyrwyr newydd. Trefnir rhaglen ymgynefino hefyd ar gyfer y carfanau hynny o fyfyrwyr a fydd yn cychwyn ar adegau eraill o'r flwyddyn.

4.5 Cyfrifoldeb y myfyriwr yw diweddaru eu cofnod myfyriwr. Mae eich cofnod myfyriwr i'w weld yn **https://studentrecord.aber.ac.uk/cy/**

## 5. Yr Amgylchfyd Uwchraddedig a'i Adnoddau

5.1 Cynhelir ymchwil uwchraddedig mewn amgylchfyd academaidd sy'n meithrin ac yn hybu lefel uwch o ysgolheictod creadigol ac annibynnol. Mae hyn yn cynnwys rhoi hyfforddiant priodol yn y broses o ymchwilio. Mae astudiaethau uwchraddedig wedi eu hymgorffori yn niwylliant a gweithgareddau ymchwil y Brifysgol, a bydd adrannau'n darparu'r adnoddau sydd eu hangen ar fyfyrwyr gradd Meistr fel y gallant gwblhau eu cyrsiau.

5.2 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu lefel addas o hyfforddiant i'w holl uwchraddedigion, ac yn rhan o'r ymrwymiad hwn cafodd Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr ei sefydlu. Rhaglen ryngddisgyblaethol yw hon sy'n cynnig nifer o fodiwlau a gynlluniwyd i ddatblygu a gwella sgiliau ymchwil. Mae'r modiwlau hyn yn cael eu cymryd gan yr holl fyfyrwyr Meistr ar gyrsiau hyfforddiant ymchwil, yn ogystal â myfyrwyr ymchwil fel y cyfryw. Gall myfyrwyr Meistr eraill (hynny yw, y rhai hynny sy'n astudio am radd meistr arbenigol yn hytrach na gradd meistr Hyfforddiant Ymchwil) ymuno â'r modiwlau hyn os dymunant, ac efallai y bydd modd i rai ohonynt eu hastudio'n ffurfiol yn rhan o'u dewisiadau. Dylent ofyn am gyngor gan diwtor eu cwrs os dymunant gymryd y naill neu'r llall o'r posibiliadau hyn.

5.3 Mae Canolfan Uwchraddedig y Brifysgol wedi'i lleoli yn Adeilad Llandinam ar gampws Penglais. Mae'r Ganolfan yn darparu sawl math o fannau astudio pwrpasol at ddefnydd uwchraddedigion.

## 6. Trefniadau Arolygu

6.1 Isod gweler canllawiau'r Brifysgol ar arferion da wrth arolygu traethodau estynedig:

6.2 Mae **cyfrifoldebau'r Brifysgol** yn cynnwys sicrhau bod:

(a) cynigion a gymeradwyir am draethodau estynedig yn ymarferol o ran eu hamserlen a'r adnoddau sydd ar gael, a'u bod yn cael eu rhoi yng ngofal arolygwyr sydd â'r arbenigrwydd priodol;

(b) arolygwyr yn cael digon o amser i gyflawni eu dyletswyddau, yn enwedig lle bo'r garfan o fyfyrwyr yn fawr;

(c) canllawiau Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI) yn cael eu dilyn, lle bo'n briodol, o ran neilltuo adnoddau (lle astudio, llyfrgell, amgylchedd ymchwil priodol ac yn y blaen);

(d) bod canllawiau ysgrifenedig yn cael eu rhoi ynglŷn â phresenoldeb, patrwm cyfarfodydd a disgwyliadau cyffredinol;

(e) bod y modd y gweithredir ar ganllawiau o'r fath yn cael ei arolygu'n rheolaidd;

(f) bod cymorth ychwanegol ynghylch sgiliau iaith yn cael ei roi, os oes ei angen, fel gwasanaeth ar wahân i ddyletswyddau'r arolygwr;

(g) bod trefniadau ar waith lle y gall myfyriwr ofyn am gael newid arolygwr, a threfniadau i aelod arall o'r staff fod ar gael os yw arolygwr yn absennol am gyfnod hir;

(h) nad yw nifer y myfyrwyr a roddir dan ofal arolygwr yn ormod iddo/iddi gyflawni'r cyfrifoldebau a nodir isod ar eu cyfer.

6.3 Mae **cyfrifoldebau'r Arolygwr** yn cynnwys:

(a) rhoi cyngor ac arweiniad i'r myfyriwr gyda'r bwriad o hyrwyddo'r gwaith o gynhyrchu traethawd estynedig o'r safon sy'n ofynnol i gwrs gradd Meistr;

(b) rhoi cymorth ac arolygaeth o fewn maes arbenigol yr arolygwr, a diffinio'r testun mewn ymgynghoriad â'r myfyriwr;

(c) rhoi arweiniad i'r myfyriwr i sicrhau bod y traethawd estynedig a gynigir yn addas i'w gyflawni o fewn yr amserlen;

(d) gweithio gyda'r myfyriwr i gytuno ar amserlen ar gyfer cyflwyno gwaith a chynnal cyfarfodydd yn rheolaidd;

(e) cadw cofnod gofalus, y cytunir arno gan yr arolygwr a'r myfyriwr, o'r holl gyfarfodydd ffurfiol o'r fath, gan gynnwys dyddiadau, y camau gweithredu y cytunwyd arnynt, a dyddiadau a osodwyd;

(f) rhoi gwaith yn ôl yn unol â dyddiadau penodol, ynghyd â sylwadau adeiladol.

6.4 Mae **cyfrifoldebau'r myfyriwr** yn cynnwys sicrhau:

(a) yn bennaf mai ffrwyth gwaith y myfyriwr ei hun yw'r traethawd estynedig, er iddo gael ei gyflawni â chymorth cyngor ac arweiniad yr arolygwr;

(b) y cytunir ar amserlen ar gyfer cyflwyno gwaith a threfnu cyfarfodydd yn rheolaidd;

(c) bod cofnod gofalus yn cael ei gadw, y cytunir arno gan yr arolygwr a'r myfyriwr, o'r holl gyfarfodydd ffurfiol, gan gynnwys dyddiadau, y camau gweithredu y cytunwyd arnynt, a dyddiadau a osodwyd;

(d) ei fod/bod yn cysylltu â'r arolygwr, os credir bod angen cyfarfodydd ychwanegol;

(e) bod y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn y fframwaith y cytunwyd arno, a dwyn i sylw'r arolygwr yn ysgrifenedig unrhyw drafferth ynghylch cyflwyno gwaith cyn gynted ag y bo modd.

## 7. Cynrychiolaeth

7.1 Rhoddir cyfle i'r holl uwchraddedigion gyflwyno sylwadau ar y ddarpariaeth academaidd, ar y cyfleusterau cynhaliol sydd ar gael iddynt, ac ar faterion lles mwy cyffredinol.

7.2 Cynrychiolir myfyrwyr uwchraddedig ar Bwyllgorau Ymgynghorol Staff/Myfyrwyr a thrwy gyfrwng aelodaeth o bwyllgorau priodol y Brifysgol/Cyfadrannau. Anogir myfyrwyr i gymryd rhan yng ngwaith cyrff cynrychioladol, gan gynnwys Undeb y Myfyrwyr.

7.3 Bydd y Brifysgol yn ymateb i'r adborth a roir gan fyfyrwyr uwchraddedig, boed wedi ei fynegi trwy gyfrwng cynrychiolwyr neu'n unigol, neu'n gyfrinachol.

## 8. Newid rhwng amser llawn a rhan-amser

Pe byddai amgylchiadau myfyriwr yn newid yn ystod y cyfnod o'r cynllun a addysgir, gallant wneud cais i newid o astudio amser llawn i ran-amser. Dylid trafod hyn â'r adran yn y lle cyntaf ac mae'n rhaid cael cymeradwyaeth Pennaeth Ysgol y Graddedigion. Dylai'r myfyriwr wedyn lenwi ffurflen Newid Cofrestriad Uwchraddedig sydd i'w chael gan yr adran neu ar-lein yn

https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/pg-issues/research/change-reg/Dylid llenwi Ffurflen Newid Cofrestriad hefyd ar gyfer newidiadau i gynllun astudio neu fodiwlau.

**DS:** Dylai myfyrwyr o'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd sydd â fisa Haen 4 ar gyfer gradd Meistr fod yn astudio'n amser llawn.

Rhaid i fyfyrwyr amser llawn ar gyrsiau blwyddyn gwblhau o fewn 12 mis, ond er mwyn darparu ar gyfer cyfleoedd ailsefyll ac amgylchiadau a allai amharu ar eu hastudiaethau, mae ganddynt uchafswm o dair blynedd i gwblhau. Fel rheol bydd myfyrwyr rhan-amser yn cwblhau o fewn 3 blynedd, ac mae ganddynt uchafswm o 5 mlynedd.

## 9. Tynnu'n ôl o'r Brifysgol

Pe byddai myfyriwr a gofrestrwyd yn methu â mynd ymlaen â'i astudiaethau neu'n dymuno rhoi'r gorau iddynt, gall dynnu'n ôl o'r Brifysgol naill ai dros dro neu'n barhaol. Os oes gan fyfyrwyr noddwyr ariannol, rhaid i'r Brifysgol roi gwybod iddynt bod y myfyriwr wedi tynnu'n ôl. Mae angen cael cymeradwyaeth ffurfiol i dynnu'n ôl dros dro. Dylai'r myfyrwyr drafod â'u hadran ynglŷn â'r posibilrwydd o dynnu'n ôl.

## 10. Asesu

10.1 Mae pob cwrs Meistr yn cynnwys modiwlau cwrs i gyfanswm o 120 credyd a modiwl 60 credyd sy'n astudiaeth annibynnol a allai fod ar ffurf traethawd estynedig, portffolio, arddangosfa, neu adroddiadau. Caiff y modiwlau cwrs eu harholi'n unigol trwy amrywiaeth o ddulliau asesu gan gynnwys arholiadau ysgrifenedig a llafar, gwaith cwrs, ac adroddiadau. Yn achos cyrsiau MRes, fel arfer ceir 60 credyd o fodiwlau a ddysgir a thraethawd estynedig gwerth 120 credyd.

10.2 I gymhwyso am radd Meistr rhaid i fyfyrwyr basio o leiaf 160 o gredydau. Mae Tystysgrifau a Diplomâu Uwchraddedig i'w cael yn ddyfarniadau canolradd i fyfyrwyr os nad ydynt yn pasio digon o gredydau i ennill dyfarniad Meistr neu sy'n rhoi'r gorau i'r rhaglen yn gynnar.

10.3 Os bydd amgylchiadau arbennig yn effeithio ar berfformiad mewn arholiadau neu waith a asesir, dylid dwyn y rhain i sylw'r adran neu'r Gyfadran berthnasol ar y pryd trwy gyflwyno ffurflen Amgylchiadau Arbennig a thystiolaeth ategol addas.

10.4 Bydd canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar y dudalen 'Cofnod Myfyriwr' ar y we ar ôl cadarnhad gan y bwrdd arholi perthnasol. **Ar wahân i achosion amgylchiadau arbennig, bydd marciau'r modiwl wrth ailsefyll yn cael eu capio ar y marc pasio, sef 50%.** Bydd myfyrwyr sy'n ailsefyll asesiad yn ymgeiswyr allanol yn gorfod talu ffi ailsefyll oni bai bod amgylchiadau arbennig yn cael eu cofnodi ar gyfer y modiwl(au). Ni chodir ffi am ailsefyll asesiad yn fewnol. Bydd gan

fyfyrwyr uchafswm o ddau gyfle i ailsefyll ym mhob modiwl.

10.5 Rhaid cwblhau elfen olaf, 60 neu 120 credyd, yr asesiad (y traethawd estynedig neu'r hyn sy'n cyfateb gan ddibynnu ar ofynion y cynllun gradd unigol) a'i chyflwyno erbyn y terfyn amser a nodir. Gellir gwneud cais am estyniad byr o hyd at bythefnos os oes amgylchiadau penodol. Os na fydd myfyrwyr yn gallu cyflwyno oherwydd amgylchiadau arbennig, rhaid anfon ffurflen amgylchiadau arbennig ynghyd â thystiolaeth i'w hystyried yn y bwrdd arholi perthnasol. Bydd y bwrdd arholi'n penderfynu a ddylid caniatáu cyfle pellach i gyflwyno'r gwaith am y marciau llawn. Os na chyflwynir gwaith, neu os nad yw'r gwaith a gyflwynir yn pasio, a hynny heb amgylchiadau lliniarol, rhoddir cyfle arall i'w gyflwyno am farc wedi'i gapio o 50%. Bydd dyddiad cau ailgyflwyno'n cael ei osod i ganiatáu marcio cyn y bwrdd arholi cyfatebol ymhen 12 mis – e.e. pan gaiff canlyniad ei gadarnhau yn y Bwrdd Arholi ym mis Rhagfyr, rhaid ailgyflwyno erbyn mis Medi y flwyddyn ganlynol.

10.6 I gael yr holl wybodaeth am derfynau amser cyrsiau uwchraddedig a'r rheolau ailsefyll gweler Confensiynau Arholiadau'r Brifysgol sydd i'w cael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/exam-conventions/

## 11. Apelio

11.1 Os yw ymgeisydd yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad y Bwrdd Arholi, gellir gwneud hyn trwy Drefn Apeliadau'r Brifysgol (ar gael gan y Gofrestrfa Academaidd).

11.2 Os yw ymgeisydd yn dymuno apelio rhaid gwneud hynny yn ysgrifenedig o fewn pythefnos ar ôl cyhoeddi'r canlyniad. Dim ond ar sail benodol y ceir cyflwyno apêl.

Ni dderbynnir apeliadau sy'n cwestiynu dirnadaeth academaidd yr arholwyr.

## 12. Eiddo Deallusol, Cyhoeddi, Ymddygiad Academaidd Annerbyniol a Llên-ladrad

12.1 Bydd yr Adrannau'n sicrhau bod uwchraddedigion yn ymwybodol o reolau cyfreithiol ynghylch hawliau eiddo deallusol a chyfrinachedd gwybodaeth a all godi o'u gweithgareddau ymchwil. Os yw'n debygol bod eiddo deallusol yn tarddu o'r gwaith ymchwil, dylid ystyried sefyllfa'r Brifysgol neu drydydd parti i'r graddau y gallai'r naill neu'r llall fod wedi rhoi nawdd ariannol neu ddarparu offer neu adnoddau eraill. Cymaint ag y bo modd ar ddechrau'r gwaith ymchwil, dylid cael cytundeb clir ynglŷn â materion eiddo deallusol a chyfrinachedd. Gellir cael cyngor ynglŷn ag eiddo deallusol gan yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi (**www.aber.ac.uk/cy/rbi/about/**).

Mae'n un o amodau derbyn i'r holl raglenni uwchraddedig y bydd polisi'r Brifysgol ar Hawliau Eiddo Deallusol yn berthnasol. I weld y polisi llawn, ewch i: **https://www.aber.ac.uk/cy/hr/policy-and-procedure/au-and-bu/intellectual-property/.**

12.2 Lle bo'n addas rhaid i'r Brifysgol gytuno i dderbyn cyfrifoldeb am ddiogelu, datblygu a/neu elwa ar hawliau eiddo deallusol a gynhyrchir gan ymchwil uwchraddedig, yn cynnwys patent, trwyddedu, a marchnata canlyniadau'r gwaith ymchwil. Mewn achosion o'r fath bydd y Brifysgol yn rhannu'r manteision ariannol net sy'n deillio ohono â'r myfyriwr, yn ogystal ag unrhyw barti arall sydd â chyfran wrth greu'r gwaith a gwmpasir gan yr hawliau, yn unol â pholisi'r Brifysgol ar Hawliau Eiddo Deallusol.

12.3 **Mae'r Brifysgol yn rheolydd data o dan y ddeddfwriaeth diogelu data bresennol ac mae'n**

**rhaid i fyfyrwyr gydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU ac â Deddf Diogelu Data 2018 y DU. Ceir rhagor o wybodaeth yn:**
https://www.aber.ac.uk/cy/infocompliance/dp/ **ac mae cyngor penodol i'w gael gan Swyddog Diogelu Data PA. Gellir cysylltu â'r Swyddog trwy'r dudalen hon.**

12.4 Mae rhyddid gan ymgeisydd i gyhoeddi rhan neu'r cyfan o'r gwaith a gynhyrchwyd yn ystod ei gyfnod cofrestriad cyn ei gyflwyno'n gyfanwaith neu'n rhan o draethawd estynedig, ar yr amod na ddywedir yn unman ei fod dan ystyriaeth am radd uwch. Gellir cynnwys gwaith cyhoeddedig o'r fath wedyn yn y traethawd estynedig a gyflwynir i'w arholi.

12.5 Llên-ladrad yw defnyddio gwaith rhywun arall gan honni mai eich gwaith chi ydyw wrth ei gyflwyno. Nid oes modd i unrhyw ymgais ddeallusol fod yn hollol wreiddiol. Mae hyd yn oed y rhai mwyaf gwreiddiol eu meddwl yn dibynnu ar syniadau a darganfyddiadau eu rhagflaenwyr. Rhaid defnyddio dulliau priodol o gyfeirnodi, llunio nodiadau, trefnu llyfryddiaethau a chydnabod dyfyniadau yn eich gwaith. Bydd arolygwyr yn gallu rhoi arweiniad ar hyn, a bydd pob adran yn rhoi cyngor ar ddulliau o gyfeirnodi, ysgrifennu a threfnu llyfryddiaeth. Ymddygiad Academaidd Annerbyniol yw'r weithred o sicrhau mantais na chaniateir mohoni er mwyn ennill marc uwch. Mae Ymddygiad Academaidd Annerbyniol yn gyffredinol a Llên-ladrad yn benodol yn waharddedig ac mae gan y Brifysgol amrywiaeth o gosbau i ymdrin â hyn.

## 13. Uniondeb a Moeseg Ymchwil

13.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau fod pob gweithgaredd ymchwil, gan staff, israddedigion neu uwchraddedigion, yn cadw at ganllawiau cyhoeddedig ar arferion da ac yn defnyddio dulliau moesegol-gadarn a phriodol. Gellir gweld canllawiau ar Foeseg ac Uniondeb Ymchwil ar y we, yn **https://www.aber.ac.uk/cy/rbi/support-services/ethics/**ac anogir uwchraddedigion i ymgyfarwyddo â'r cyfarwyddyd a roddir.

13.2 Rhaid i bob ymchwil sy'n ymwneud â chyfranogwyr neu feinwe dynol gael ei gyflawni'n unol â chanllawiau mewnol ac allanol. Mae hyn yn berthnasol i bob ymchwil, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, arolygiadau, cyfweliadau, holiaduron, a phrosiectau arsylwi, ar draws y Gwyddorau Cymdeithasol a'r Dyniaethau yn ogystal â'r Gwyddorau.

**Rhaid** i bob cynnig ymchwil gael ei asesu trwy'r ffurflen asesu ar-lein i sicrhau bod yr agweddau moesegol wedi'u hystyried ac os yw'n angenrheidiol, dylid gwneud cais i'r Panel Moeseg Ymchwil perthnasol am gymeradwyaeth. Mae'r ffurflenni cais ac asesu i'w cael ar–lein yn **https://www.aber.ac.uk/cy/rbi/support-services/ethics/**, (mae ymchwil sy'n ymwneud ag anifeiliaid yn dilyn trefn wahanol) a dylid eu llenwi wrth i gynllun yr ymchwil gael ei drafod â'r arolygydd.

Dymuna'r Brifysgol sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir gan ymchwilwyr yn rhai cadarn a chyson ag arferion da; bydd arolygwyr ac adrannau yn rhoi cyngor manwl ar yr hyn sydd ei angen a dylai myfyrwyr gydnabod yr angen am adolygiad moesegol o'r gweithdrefnau y maent yn debygol o'u mabwysiadu yn eu hymchwil.

Mae cyfrifoldeb moesegol y Brifysgol yn ymestyn nid yn unig i warchod diogelwch a lles y rhai sy'n cymryd rhan ond hefyd ei staff, ei myfyrwyr ac enw da'r sefydliad.

Mae rhai prosiectau ymchwil na ellir eu hadolygu'n fewnol gan y Panel Moeseg Ymchwil a bydd angen cymeradwyaeth foesegol allanol ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys

prosiectau sy'n ymwneud â data, cleifion, neu staff y GIG; y rhai nad oes ganddynt y gallu meddyliol, a'r rhai sydd o fewn y gwasanaeth carchar a phrawf. Gall y math hwn o gymeradwyaeth gymryd llawer yn hirach nag adolygiad y Brifysgol a dylid ystyried hyn mewn da bryd. Ceir manylion llawn ar y dudalen foeseg.

Gall methu â chyflawni adolygiad moesegol priodol ddod â goblygiadau difrifol yn ei sgil, a gallai olygu camymddygiad ymchwil yn unol â pholisi priodol y Brifysgol.

13.3 Mae'r Brifysgol hefyd yn cydymffurfio â'r ***Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil***. Mae'r Concordat yn nodi'r ymrwymiadau a fydd yn rhoi sicrwydd i'r llywodraeth, i'r cyhoedd ehangach, a'r gymuned ryngwladol bod ymchwil yn y Deyrnas Gyfunol yn parhau i fod yn seiliedig ar safonau uchaf trylwyredd ac uniondeb.

Fe fydd y concordat, a ddatblygwyd ar y cyd â'r cynghorau cyllid ac ymchwil, Ymddiriedolaeth Wellcome, ac amrywiol adrannau'r llywodraeth, yn:

- Darparu gwell cydlynu rhwng agweddau cyfredol ynglŷn ag uniondeb ymchwil,
- Galluogi cyfathrebu mwy effeithiol i sicrhau bod y safonau uchaf o drylwyredd ac uniondeb yn parhau'n sail i'n holl ymchwil,
- Annog mwy o dryloywder ac atebolrwydd ar lefel sefydliadol ac ar lefel sector.
- Ysgogi myfyrio ynghylch arferion cyfredol i weld ymhle y gellir gwneud gwelliannau.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil yn: **https://www.aber.ac.uk/cy/research/good-practice/**

Mae modd i fyfyrwyr gael cymorth a chyngor trwy e-bostio **moeseg@aber.ac.uk** .

Mae cyfarwyddiadau, cwestiynau cyffredin, manylion hyfforddiant pellach, a lleoliadau sesiynau galw-heibio i'w gweld ar flaenddalen moeseg: **www.aber.ac.uk/ethics**.

## 14. Cydbwysedd rhwng Gwaith ac Astudio

Mae'r Brifysgol yn sylweddoli bod nifer o fyfyrwyr yn ariannu eu hastudiaethau uwchraddedig eu hunain, a dim ond trwy gael gwaith cyflogedig y gallant wneud hynny. Mae hefyd yn annog uwchraddedigion i ymgymryd â dyletswyddau addysgu neu arddangos am dâl, neu waith gwirfoddol, er mwyn cael profiad a datblygu sgiliau a fydd yn eu paratoi am swyddi ar ôl iddynt raddio, yn ogystal â gwneud cyfraniad yn eu hadrannau neu'r gymuned ehangach. Ond, rhaid i fyfyrwyr sicrhau eu bod yn cael y cydbwysedd cywir rhwng gwaith cyflogedig ac amser astudio er mwyn gallu cwblhau eu gradd mewn pryd i'r safon ofynnol. Hefyd, rhaid i fyfyrwyr barchu telerau unrhyw ysgoloriaeth neu noddwr neu fisa.

Dylai myfyrwyr (a'r staff sy'n eu cynghori) nodi'r canlynol os ydynt yn ystyried gwaith am dâl wrth astudio:

- Mae gan Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI) eu rheolau eu hunain ynghylch gwaith cyflogedig a dylai'r myfyrwyr wirio a pharchu'r rhain.
- Gall noddwyr eraill hefyd osod cyfyngiadau ar gyfanswm neu natur y gwaith cyflogedig a ganiateir, a chyfrifoldeb y myfyriwr yw anrhydeddu'r cyfyngiadau hyn.
- Ni ddylai myfyrwyr rhyngwladol sydd â fisa weithio mwy nag 20 awr yr wythnos yn ystod y tymor neu byddant yn torri amodau'r fisa. Dylai'r myfyrwyr hyn edrych yn ofalus ar amodau eu fisa o ran gweithio yn ystod y gwyliau a gweithio yn ystod y cyfnod ysgrifennu.
- Mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a chyrff eraill sy'n cynrychioli lles y myfyrwyr yn

cydnabod pwysigrwydd gwaith rhan-amser i nifer o fyfyrwyr, ond hefyd yr effaith negyddol posibl y gallai gwaith o'r fath ei gael ar eu perfformiad. Bydd effaith gwaith rhan-amser yn amlwg yn dibynnu ar natur yr unigolyn, natur y gwaith a'r oriau gwaith yn ogystal â chyfanswm yr oriau a weithiwyd, e.e. gwaith gyda'r nos, gwaith penwythnos, gwaith gwyliau. Fel rheol fras, mae myfyrwyr amser-llawn sy'n gweithio mwy na 15 awr yr wythnos yn llawer mwy tebygol o gael trafferthion i gadw trefn ar eu hastudiaethau. *Diwedd y gân yw ei bod yn rhaid i fyfyrwyr sy'n gweithio'n rhan-amser sicrhau eu bod yn gallu mynd i'r holl ddosbarthiadau gofynnol, eu bod yn gallu cadw mewn cysylltiad agos â'u harolygwyr, a'u bod yn gallu cadw at y dyddiadau cau ar gyfer asesiadau a chyflwyno gwaith.*

- Efallai fod gan fyfyrwyr rhan-amser waith yn barod a bydd modd iddynt barhau yn y swydd honno os ydynt yn gallu cyflawni gofynion y cwrs.

## 15. Myfyrwyr Rhan-amser

15.1 Mae'r Brifysgol yn ystyried bod myfyrwyr rhan-amser yn aelodau yr un mor werthfawr o'r gymuned uwchraddedig ag yw myfyrwyr amser llawn. Mae'r Canllawiau hyn yr un mor berthnasol i'r naill a'r llall (maent yn nodi hefyd lle mae'r rheoliadau'n amrywio y naill oddi wrth y llall). Serch hynny, mae rhai trefniadau yn werth eu pwysleisio.

- Dylai pob myfyriwr newydd fynd i'r sesiwn gofrestru a'r rhaglen gynefino. Gall myfyrwyr rhan-amser nad ydynt yn byw yn Aberystwyth drefnu cofrestru trwy'r post ar ôl cael caniatâd eu hadran.
- Rhaid i fyfyrwyr amser llawn a myfyrwyr rhan-amser drefnu gydag arolygwyr eu traethodau i gael arolygaeth reolaidd. Mae'n arbennig o bwysig bod trefniadau effeithiol yn cael eu gwneud yn hyn o beth i fyfyrwyr rhan-amser os nad ydynt yn byw yn Aberystwyth.
- Mae gan fyfyrwyr rhan-amser yr un hawl i ddefnyddio adnoddau llyfrgell a chyfrifiaduron â myfyrwyr amser llawn. Dylai myfyrwyr nad ydynt ar y campws ddysgu sut i ddefnyddio adnoddau o bell – gweler ein **Cwestiynau Cyffredin ar ddefnyddio e-adnoddau oddi ar y campws**. Hefyd, mae'n bosibl bod gan fyfyrwyr hawl i gael defnydd cyfyngedig o lyfrgelloedd eraill yng Nghymru a gwledydd Prydain – gweler ein **gweddalennau** i gael manylion am y cynlluniau gwahanol.
- Bydd y cyfleusterau sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser mewn adrannau yn amrywio yn ôl faint o adnoddau mae adrannau'n penderfynu eu neilltuo, a gallant fod yn wahanol i'r hyn sydd ar gael i fyfyrwyr amser llawn.
- Rhaid i fyfyrwyr rhan-amser dalu treth y cyngor.